

BRIFF 6 AR GYFER Y PRESWYLIAD I ARTISTIAID CYSWLLT:

Natur am Byth – Prosiect Bryoffytâu Bendigedig

Mae'r preswyliaid hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Plantlife, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Addo, ac fe'i hariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Cyllideb: £15,000 am 10 mis rhwng 24 Mehefin 2024 a 31 Mawrth 2025

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid / gwneuthurwyr / dylunwyr a phobl greadigol eraill sydd ag ymagwedd gydweithredol a chyfranogol, a diddordeb mewn cyfathrebu materion ecolegol ehangach, i ymgymryd â phreswyliaid mewn dau leoliad ym Mhowys – yng ngogledd y sir, yn y Drenewydd a'r cyffiniau, ac yn ne'r sir yn Rhaeadr a'r cyffiniau. Nod y preswyliaid yw archwilio'r rôl y mae prosesau artistig yn ei chwarae o ran meddwl o'r newydd am y ffordd yr ydym yn ystyried rhywogaethau – yn enwedig y rhai sy'n fach o ran eu maint ac yn ddi-nod ar yr olwg gyntaf.

Mae'r preswyliaid yn un o gyfres o 10 sy'n cael eu comisiynu fel rhan o Raglen Ymgysylltu drwy'r Celfyddydau gan Natur am Byth, sy'n anelu at wneud y canlynol:

- (i) Archwilio'r rôl y mae prosesau artistig yn ei chwarae o ran meddwl o'r newydd am y ffordd yr ydym yn ystyried rhywogaethau – yn enwedig ein rhywogaethau mwyaf agored i niwed, sydd yn aml yn fach o ran eu maint ac yn ddi-nod ar yr olwg gyntaf;
- (ii) Defnyddio strategaethau a gweithgareddau creadigol i ymgysylltu â phobl, yn benodol pobl sydd â llesiant corfforol a/neu feddyliol isel (gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt fel hyn gan bandemig COVID-19) wrth fyfyrion ar y materion sy'n effeithio ar y rhywogaethau ym mhob un o'r safleoedd prosiect ledled Cymru, gyda golwg ar wella a diogelu llesiant a chynefinoedd y rhywogaethau a'r cyfranogwyr fel ei gilydd.
- (iii) Creu archif ar-lein o'r gweithiau celf digidol a gynhyrchir drwy'r preswyliaid sy'n helpu i adrodd i gynulleidfa ehangach straeon hynod ddiddorol am ein rhywogaethau mwyaf agored i niwed, ac sy'n adlewyrchu cyd-destun cenedlaethol rhaglen Natur am Byth.

Cefndir

Mae'r preswyliaid yn rhan o **Natur am Byth** – Prosiect Adferiad Gwyrdd blaenllaw Cymru, y mae naw elusen amgylcheddol (Y Gadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Buglife, yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, y Gadwraeth Glöynnod Byw, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, RSPB, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Vincent a Plantlife) wedi gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru drwyddo i ddarparu'r rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf yng Nghymru. Mae enw'r rhaglen yn cyfeirio at alwad Cymru i uno – Cymru am Byth!

Nod y rhaglen o breswyliaid artist yw cyflawni yn erbyn trydydd llinyn rhaglen *Natur am Byth* – meddwl o'r newydd am y ffordd yr ydym yn ystyried rhywogaethau:

“Bydd meddwl o’r newydd am y ffordd rydyn ni’n ystyried rhywogaethau yn targedu’n benodol y rhai sydd â llesiant corfforol a/neu feddyliol isel, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt fel hyn gan bandemig COVID-19. Mae gan natur allu anhygoel, sydd wedi’i ddogfennu’n dda, i’n helpu i wella ac ymgeleddu ein teimladau o lesiant corfforol a meddyliol. Bydd y llinyn hwn yn defnyddio gweithgareddau creadigol a phrosiectau bach i weithio gyda’r gynulleidfa hon i adrodd straeon hynod ddiddorol am ein rhywogaethau mwyaf agored i niwed drwy’r celfyddydau a diwylliant.”

Bydd 10 artist cyswllt yn cael eu comisiynu drwy’r rhaglen i weithio gyda chymunedau sy’n anos eu cyrraedd ar lefel seiliedig ar le er mwyn gwneud y canlynol:

- Annog cymunedau i ymwneud â’r rhywogaethau sydd o dan fygythiad;
- Helpu unigolion i feddwl o’r newydd am y ffordd y maent yn ystyried rhywogaethau;
- Cysylltu pobl â’r byd natur er budd eu hiechyd a’u llesiant;
- Hyrwyddo cynhwysiant, amrywiaeth a’r Gymraeg.

Y safle a’r rhywogaethau

Mae’r rhaglen *Natur am Byth* yn rhychwantu 11 o safleoedd prosiect seiliedig ar le ledled Cymru a llawer o rywogaethau.

Bydd y preswiliad penodol hwn yn canolbwyntio ar rai o’r planhigion isaf prinnaf gan gynnwys bryoffytau a chennau; ffyngau; ac infertebratau:

- Bryoffytau – planhigion anfasgwlaidd, nad oes ganddynt wreiddiau na meinwe fasgwlaidd, ond sydd, yn hytrach, yn amsugno dŵr a maetholion o’r aer drwy eu harwyneb;
- Cennau – sy’n cael eu ffurfio drwy bartneriaeth symbiotig o ddwy organeb ar wahân – ffwng ac alga fel arfer.

Bydd yr artist yn gweithio ar ddau safle yng ngororau Cymru, o fewn sir Powys – yn y Drenewydd a’r cyffiniau ac yn Rhaeadr a’r cyffiniau. Mae gan y ddau safle gytreffi o fryoffytau mwy hygyrch. Mae dau leoliad arall, sef Craig Stanner a Gallt Roundton, lle ceir enghreifftiau prin iawn o fryoffytau. Fodd bynnag, yn y lleoliadau hyn mae cynefinoedd sy’n serth, yn greigiog ac yn anodd eu cyrraedd, ac er y gall staff hwyluso ymweliadau artistiaid â’r lleoedd hyn, maent yn anaddas ar gyfer gweithgareddau cyhoeddus.

Nod prosiect Gororau Cymru yw annog pobl i empathyddio â’r bodau byw bychain hyn, gan gydnabod tebygrwydd biolegol sylfaenol a rennir. Gan archwilio themâu bregusrwydd ac ynysigrwydd, bwriad y preswiliad hwn yw gwella’r sefyllfa i fryoffytau drwy ymchwil, adrodd straeon, delweddu ac, yn fwy cyffredinol, greu ar y cyd â phobl leol er mwyn gwella llesiant a chysylltedd â natur.

Powys (sy’n cwmpasu ardal o fwy na 2,000 milltir sgwâr) yw’r sir fwyaf, a’r sir sydd â’r boblogaeth fwyaf gwasgaredig yng Nghymru. Mae’n wledig yn bennaf, yn fynyddig ac yn cynnwys Mynyddoedd Cambria a’r Mynyddoedd Duon, yn ogystal â Choedwig Maesyfed, Bannau Brycheiniog, Llyn Efyrrwy, a Chwm Elan a’i gronfeydd dŵr. Yr anheddiad mwyaf yn y

sir yw'r Drenewydd gyda phoblogaeth o oddeutu 11,500. Mae gan Raeadr boblogaeth o oddeutu 2,000.

Bydd staff Plantlife a CNC yn hwyluso'r gwaith archwilio drwy dywys yr artist i ardaloedd hygyrch i'w hymchwilio a'u harchwilio, gan gynnwys: Gwarchodfa Natur Gilfach, i'r gogledd o Raeadr Gwy yng Nghwm Marteg, a reolir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed <https://www.rwtwales.org/cy/nature-reserves/gilfach> – mae'r safle'n cwmpasu dros 160 hectar sy'n cynnwys rhostir uchel a dolydd; a Chwm Elan, y mae mwy na 80% ohono wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Y prosiect

Hoffem gomisiynu artist i ddatblygu a chyflawni prosiect cyfranogol sy'n ennyn diddordeb y cyhoedd, staff Buglife a gwirfoddolwyr er mwyn ymchwilio a deall y ffordd orau o gyfleu pwysigrwydd bryoffytau o fewn ein hecosystem wrth hefyd gadw a gwarchod y safleoedd lle mae'r rhywogaethau prin hyn yn ffynnu. Bydd y prosiect hwn yn cynnig cyfle unigryw i archwilio planhigion llai adnabyddus ac ymchwilio iddynt, a chodi ymwybyddiaeth o rywogaethau er mwyn hybu adferiad drwy atebion arloesol, trawsnewidiol a chreadigol sy'n cynnwys pobl leol yn y sgysiau hanfodol hyn.

Bydd grwpiau a chymdeithasau lleol yn gweithio gydag Addo, CNC, Plantlife a'r artist i nodi cyfranogwyr lleol yn ystod camau cychwynol y prosiect. Mae gennym berthynas waith gyda sefydliadau celfyddydol ar draws yr ardal, gan gynnwys Oriel Davies, CARAD, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, ac Ymddiriedolaeth Gregynog.

Canlyniadau disgwylidig

Mae canlyniadau'r gwaith ymgysylltu a wneir yn ystod y cyfnod preswyl fod ar unrhyw ffurf, ond gallent gynnwys gweithiau celf dros dro, gosodiadau, a gweithgareddau / digwyddiadau (e.e. ymyriadau celfyddydol, arddangosfeydd, gweithdai, sgysiau, seminarau, a theithiau) a grëir gyda mewnbwn gan bobl leol, gwirfoddolwyr a staff, neu a gynhyrchir ar y cyd â hwy. Ym mhob un o'r preswyladau, un o'r prif ddisgwyladau yw y defnyddir ffyrdd diddorol a chyfoes o archwilio rhywogaethau a'u cynefinoedd a rhannu gwybodaeth amdanynt â'r cyhoedd ehangach.

Nod yr agwedd ar ymgysylltu drwy'r celfyddydau yn y preswylad yw defnyddio strategaethau creadigol i annog pobl i fyfyrion ar y materion sy'n effeithio ar y rhywogaethau ym mhob safle prosiect ledled Cymru, gyda'r bwriad o wella a diogelu llesiant a chynefinoedd y rhywogaethau a'r cyfranogwyr fel ei gilydd. Bydd yr artist yn gweithio gyda phartneriaid y prosiect i fesur effaith y gwaith cyfranogol a wneir ar lesiant cyfranogwyr, fel rhan o fframwaith gwerthuso ehangach ar gyfer y rhaglen gyfan.

Mae partneriaid y rhaglen yn dymuno ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau ar raddfa safle drwy bob un o brosiectau'r preswyladau artist unigol, sy'n seiliedig ar le, wedi'u cyd-gynhyrchu ac sy'n gysylltiedig â materion cadwraeth, a hynny er mwyn ail-ddehongli ein rhywogaethau gwylidwrus, agored i niwed a bychain. At hynny, bwriedir datblygu naratif cyfannol o amgylch uchelgeisiau'r rhaglen gyfan drwy goladu allbynnau digidol o'r preswyladau mewn adnodd digidol ac archif ar-lein, a fydd yn cael eu creu a'u cynnal gan CNC ac yn estyn cyrhaeddiad y gwaith i gynulleidfa genedlaethol.

Felly, bydd disgwyl i'r artist gynhyrchu gwaith addas i'w gynnwys yn yr archif ar-lein hon yn ystod y preswylad. Nid oes angen i'r gwaith cyfranogol a wneir yn ystod y preswylad gael ei gyflwyno mewn fformat digidol o reidrwydd, ond dylid meddwl am y ffordd orau o ddal gweithgaredd byrhoedlog i'w rannu'n ddigidol, e.e. drwy ffotograffiaeth, ffilm, ysgrifennu, sain, neu debyg.

Yr amserlen gyflawni

Bydd y prosiect felly'n cynnwys tri cham:

Cam 1. YMCHWIL A DATBLYGU (24 Mehefin – 9 Awst 2024):

Bydd yr artistiaid yn ymgymryd â chyfnod o ymchwil a datblygu o ran y themâu a'r materion sy'n ymwneud â'r safle, y rhywogaethau, a'r cynefinoedd a amlinellir yn y briff, gyda'r bwriad o ddatblygu cynnig ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu drwy'r celfyddydau a chynhyrchu'r canlyniad digidol.

Gall y cyfnod ymchwil a datblygu hwn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ymweliadau safle; cyfarfod a siarad â staff a'r swyddogion datblygu prosiect sy'n gweithio ar y safle; sefydliadau, partneriaid, a rhanddeiliaid perthnasol eraill a chymunedau o ddiddordeb; ymchwil desg; a gweithgareddau ymgysylltu cychwynnol os yn berthnasol.

Ffi'r artist ar gyfer y cam hwn yw £2,250.00 (ar sail cyfradd o £300 y dydd), ynghyd â hyd at £500.00 ar gyfer treuliau yn cynnwys costau teithio a chostau'r prosiect a'r deunyddiau.

Erbyn 28 Gorffennaf 2024 bydd yr artist yn darparu cynnig drafft ar gyfer cyflawni Camau 2 a 3 (y prosiect ymgysylltu drwy'r celfyddydau a'r canlyniad digidol) sy'n bodloni amcanion y briff o fewn y gyllideb o £12,250.00 sy'n weddill (gan gynnwys holl ffioedd a threuliau'r artist ac unrhyw gostau deunyddiau neu gostau'r prosiect sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu a'r canlyniad digidol).

Rhaid i'r cynnig gynnwys y canlynol:

- Manylion y cysyniad, y dull gweithredu a'r fethodoleg ar gyfer ymgysylltu â'r cymunedau targed o ddiddordeb a amlinellir yn y briff a manylion ynghylch datblygu a chynhyrchu'r canlyniad digidol;
- Manylion partneriaid, cyfranogwyr, a rhanddeiliaid eraill a allai fod yn gysylltiedig;
- Dadansoddiad o'r gyllideb;
- Sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i asesu'r effaith ar lesiant cyfranogwyr; ac
- Amserlen ar gyfer cyflawni sy'n cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer y rhaglen ehangach.

Bydd angen datblygu'r cynnig mewn ymgynghoriad â phartneriaid y prosiect Natur am Byth, swyddogion cyflawni'r prosiect ar gyfer safle'r prosiect, ac Addo, a'i fod wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo ganddynt erbyn 9 Awst 2024.

Cam 2. CYFLAWNI'R PROSIECT YMGYSYLLTU DRWY'R CELFYDDYDAU (12 Awst 2024 – 10 Ionawr 2025):

Yn ystod y cam hwn bydd yr artist yn cyflawni ei brosiect arfaethedig ar gyfer ymgysylltu drwy'r celfyddydau ac yn cynhyrchu ei ganlyniad digidol arfaethedig.

Rhaid i'r artist gynhyrchu asesiadau risg ar gyfer y gwaith y mae'n bwriadu ei wneud yng Nghamau 1 a 2, y mae rhaid iddynt hefyd asesu unrhyw effaith bosibl ar y safleoedd, y cynefinoedd neu'r rhywogaethau sy'n cael eu harchwilio drwy'r prosiect. Bydd yr artist yn cael cymorth y swyddogion datblygu prosiect ac Addo i gwblhau'r asesiadau hyn.

Cam 3. CWBLHAU A CHYFLWYNO'R CANLYNIAD DIGIDOL (13 Ionawr – 31 Mawrth 2025):

Bydd yr artist yn defnyddio'r amser hwn i gwblhau a chyflwyno'i ganlyniad digidol ar gyfer yr archif *Natur am Byth* ar-lein ar, neu cyn 7 Chwefror 2025.

GWERTHUSO PARHAUS (o ddechrau'r prosiect tan 31 Mawrth 2025):

Bydd yr artist yn gweithio gyda phartneriaid y prosiect, y swyddogion datblygu prosiect ac Addo i ddyfeisio a defnyddio dulliau priodol o asesu'r effaith y mae'r elfen o'r prosiect sy'n ymwneud ag ymgysylltu drwy'r celfyddydau yn ei chael ar lesiant cyfranogwyr.

Bydd yr artist yn cwblhau adroddiad terfynol, sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer a math y cyfranogwyr, nifer y sesiynau cyfranogol a sylwadau uniongyrchol (ar lafar neu'n ysgrifenedig) yn ogystal â gwybodaeth weledol (ffotograffau a ffilmiau), datganiadau i'r wasg, gwahoddiadau a chatalogau / mathau eraill o waith printiedig. Yn yr adroddiad bydd yr artist hefyd yn myfyrio ar ei daith greadigol ei hun, gan fanylu ar yr hyn y mae wedi'i ddysgu a'i gyflawni yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn a allai fod wedi mynd yn well, gwybodaeth am waddol y gwaith ac unrhyw agweddau a all barhau.

Bydd Addo a'r swyddogion datblygu prosiect hefyd yn helpu ac yn cefnogi'r artist i gasglu a phrosesu'r wybodaeth feintiol ac ansoddol hon.

Llywodraethu a chymorth

Gyda CNC y bydd contract yr artist ac felly dylid codi unrhyw faterion contract gyda CNC yn ystod y prosiect.

Fodd bynnag, bydd Addo yn goruchwyllo rheolaeth y prosiect o ddydd i ddydd, yn monitro cynnydd ac yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y sefydliadau comisiynu a'r artist, gan gynnig mentora a chefnogaeth i'r garfan o 10 artist yn unigol neu fel grŵp. Mae'r sesiynau mentora un-i-un yn ddewisol ond bydd disgwyl i'r artist fod yn bresennol yn y sesiynau grŵp gyda'r garfan o 10 artist.

Gall sesiynau mentora grŵp hefyd fod yn gyfle i elwa ar arbenigedd partneriaid y prosiect a/neu arbenigwyr cymunedol / proffesiynol eraill, a byddent yn ei gwneud yn bosibl croesbeillio syniadau, profiadau ac arbenigedd ar draws y rhaglen a darparu rhwydwaith ehangach o gefnogaeth i artistiaid, partneriaid a chymunedau. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i wahodd rhwydwaith ehangach o bartneriaid a chyfranogwyr sy'n ymwneud â'r comisiynau

unigol i rannu digwyddiadau / gweithgareddau wrth gyflwyno'r rhaglen, os yw'n berthnasol ac o ddiddordeb. Byddai hyn yn helpu i ehangu'r cynulleidfaoedd ar gyfer y rhaglen ymhellach, a'u tyfu.

Bydd y sesiynau mentora grŵp yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

- Sesiwn #1 – wythnos yn dechrau 1 Gorffennaf 2024: cyfle i bob un o'r artistiaid i gwrdd a datblygu'r ymdeimlad o fod yn perthyn i garfan. Cytuno ar y fformat ar gyfer y sesiynau grŵp yn y dyfodol gyda'r artistiaid.
- Sesiwn #2 – wythnos yn dechrau 12 Awst 2024: trafod cynigion wrth symud ymlaen.
- Sesiwn #3 - wythnos yn dechrau 21 Hydref 2024: sesiwn fentora grŵp ar-lein i drafod cynnydd.
- Sesiwn #4 – wythnos yn dechrau 3 Mawrth 2025: sesiwn o rannu canlyniadau digidol a sgyrsiau myfyriol a fydd yn rhan o'r gwerthuso.

Bydd sesiynau mentora un-i-un yn cael eu cynnig fel a ganlyn:

- Sesiwn #1 – wythnos yn dechrau 8 Gorffennaf 2024: sesiwn gychwynol ar-lein a gynigir wrth i'r artistiaid ddechrau datblygu eu syniadau.
- Sesiwn #2 – wythnos yn dechrau 22 Gorffennaf 2024: i'w chynnig i artistiaid wrth iddynt ddatblygu eu cynigion ymhellach a'u cwblhau.
- Sesiwn #3 – wythnos yn dechrau 12 Awst 2024: i'w chynnig i artistiaid wrth iddynt gychwyn ar eu gwaith ymgysylltu.
- Sesiwn #4 a sesiwn #5 – yn ôl yr angen rhwng 28 Hydref 2024 a 10 Ionawr 2025: cynigir dwy sesiwn i artistiaid wrth iddynt gyflawni a chwblhau eu gwaith ymgysylltu.
- Sesiwn #6 – yn ôl yr angen rhwng 13 Ionawr a 7 Chwefror 2025: i'w chynnig i artistiaid wrth iddynt gwblhau eu canlyniadau digidol.

Bydd y swyddogion datblygu prosiect hefyd yn cydweithio â'r artist ar lawr gwlad ac yn ei gefnogi, gan ei gynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r safle, y rhywogaethau a'r cynefinoedd a'r materion sy'n effeithio arnynt, ac i gysylltu â phartneriaid lleol a chymunedau o ddiddordeb yn ystod y cam ymchwil a datblygu, ac yn y gwaith o gyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu drwy'r celfyddydau.

Bydd disgwyl i'r artist fynychu cyfres o gyfarfodydd cynnydd drwy gydol y prosiect a fydd yn gweithredu fel cerrig milltir i bartneriaid y prosiect i'w galluogi i adolygu cynnydd y prosiect yn erbyn nodau ac amcanion y briff, a fydd hefyd yn caniatáu talu ffioedd yr artist yn rheolaidd ar hyd amserlen y prosiect yn unol â pholisi CNC o dalu ar ôl cwblhau'r gwasanaethau a ddarperir.

Cynhelir cyfarfodydd cynnydd fel a ganlyn:

- Cyfarfod cynnydd #1 – wythnos yn dechrau 24 Mehefin 2024: cyfarfod ymsefydlu wyneb yn wyneb;
- Cyfarfod cynnydd #2 – wythnos yn dechrau 15 Gorffennaf 2023: cyfarfod hanner ffordd;
- Cyfarfod cynnydd #3 – wythnos yn dechrau 5 Awst 2024: cyfarfod ar ddiwedd y cyfnod i roi adborth i'r artistiaid am eu cynigion drafft;
- Cyfarfod cynnydd #4 – wythnos yn dechrau 16 Medi 2024: i adolygu'r cynnydd a nodi unrhyw gymorth y mae ei angen;

- Cyfarfod cynnydd #5 – 21 Hydref 2024: i adolygu'r cynnydd a nodi unrhyw gymorth y mae ei angen;
- Cyfarfod cynnydd #6 – 25 Tachwedd 2024: i adolygu'r cynnydd a nodi unrhyw gymorth y mae ei angen;
- Cyfarfod cynnydd #7 – 13 Ionawr 2025: ar gwblhau'r gwaith ymgysylltu a dechrau cwblhau'r canlyniad digidol;
- Cyfarfod cynnydd #8 – wythnos yn dechrau 17 Chwefror 2025: i roi adborth i artistiaid am y canlyniad digidol a mynd i'r afael ag unrhyw fân broblemau.

Yr artist

Bydd gan yr artist (unigolyn, partneriaeth, stiwdio neu grŵp) ddiddordeb mewn ymchwil artistig, natur, a chynefinoedd a bydd ganddo brofiad blaenorol o weithio gydag eraill i ddatblygu syniadau creadigol. Bwysicaf oll fydd ethos o ymarfer ac ymgysylltu ar y cyd.

Mae'r cyfle hwn yn agored i artistiaid o'r DU.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y canlynol:

- Gwreiddioldeb creadigol a phroffesiynoldeb yn eu gwaith;
- Y gallu a'r awydd i gydweithio â'r cyhoedd a phartneriaid eraill fel rhan o'u hymarfer creadigol;
- Parodrwydd i ymgolli ym mywyd a diwylliant yr ardal;
- Dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a'r pryderon a'r cyfleoedd a gyflwynir gan themâu'r preswylad, h.y. gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd, creu naratifau ynghylch newid hinsawdd, ecoleg, ymgysylltu â'r cyhoedd, a'r effeithiau y gall ymgysylltu â byd natur drwy'r celfyddydau eu cael ar lesiant;
- Rhaid i'r artist fod yn ymwybodol o'r cyfreithiau ar gyfer gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, a chadw atynt, pe bai'n gwneud gwaith o'r fath fel rhan o'r preswylad;
- Os bydd yr artist yn gweithgynhyrchu / gosod gweithiau celf, rhaid i'r artist ddangos bod ganddo yswiriant indemniad cyfredol a phriodol sy'n berthnasol i'r artist yn bersonol ac i unrhyw wrthrych(au) sydd i'w weithgynhyrchu neu eu gweithgynhyrchu;
- Bydd gan yr artist hefyd lefelau priodol o yswiriant indemniad proffesiynol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu'n wedi ymrwymo i'w caffael os caiff ei gomisiynu;
- Y gallu i gynhyrchu gwaith celf / allbwn digidol naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'i gymdeithion.
- Mae'r gallu i gyflwyno'r prosiect yn Gymraeg yn ddymunol.

Prif safle / stiwdio'r prosiect

Mae yna nifer o weithleoedd posibl ar draws safle arfaethedig y preswylad, sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau o gynhyrchu ac ar gyfer ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd

(stiwidio / gweithle / man cyfarfod / oriel). Felly, bydd union leoliad gweithle(oedd) yr artist yn cael ei drafod â CNC yn ystod y camau cynnar yng nghyfnod y preswylad.

Y gyllideb a'r amserlen gyflawni

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer pob preswylad artist cyswllt yw £15,000 (gan gynnwys yr holl ffioedd, treuliau teithio, costau byw, a threuliau'r prosiect a chostau'r deunyddiau).

Bydd yr artist yn ymwneud â chontract sy'n cynnwys proses dau gam o gymeradwyo gan y partneriaid, h.y. mae'n ofynnol i'r artistiaid gyflwyno cynigion yn dilyn cyfnod o ymchwil a datblygu i'w cymeradwyo gan y cleient cyn symud ymlaen i'r cam cyflwyno.

Felly, rhoddir £2,250.00 cychwynnol i bob artist (ar sail cyfradd o £300 y dydd ac yn cynnwys yr holl gostau teithio, byw a stiwdio arferol), ynghyd â hyd at £500.00 ar gyfer costau'r prosiect er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu (gan gynnwys cwrdd â phartneriaid, cymunedau o ddiddordeb, gwaith ymchwil a gweithgareddau / cyfarfodydd ymgysylltu cychwynnol) a darparu cynnig ar gyfer cyflawni'r prosiect; cyflawni amcanion y briff a roddir iddo a sicrhau bod mod ei gyflawni o fewn y £12,250 sy'n weddill (gan gynnwys manylion y cysyniad, y dull gweithredu, partneriaid, cyfranogwyr, strategaethau ar gyfer ymgysylltu â phobl, dadansoddiad o'r gyllideb, yr amserlen, yr allbwn digidol arfaethedig, arian wrth gefn ac ati). Mae'r gyllideb gyflawni o £12,250 yn cynnwys holl ffioedd a threuliau'r artist ac unrhyw gostau deunyddiau neu gostau'r prosiect sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithgareddau ymgysylltu a'r canlyniad digidol).

Telir ffioedd i'r artistiaid ar gyfer y cyfnod ymchwil a datblygu mewn dau randaliad:

1. £1,125.00, yn ddyledus ar ôl cyfarfod cynnydd hanner ffordd #1, y disgwylir iddo gael ei gynnal yn yr wythnos yn dechrau 15 Gorffennaf 2024; a
2. £1,125.00, yn ddyledus ar ôl cyfarfod cynnydd diwedd Cam 1 ac ar ôl i gynnig yr artist ar gyfer y prosiect ymgysylltu drwy'r celfyddydau a'r canlyniad digidol gael ei gymeradwyo; y disgwylir iddo ddigwydd yn yr wythnos yn dechrau 05 Awst 2024.

Rhaid cytuno ag Addo ymlaen llaw y swm a gaiff ei wario yn erbyn y £500 ar gyfer treuliau'r prosiect yn ystod y cyfnod ymchwil a datblygu, a gellir ei hawlio drwy gyflwyno anfonebau wedi'u heitmeiddio a'r derbynebaw cysylltiedig i CNC.

Cytunir ar ddyddiadau talu rhandaliadau pellach gyda'r artist ar gyfer gweddill y prosiect, ar ôl i'r prosiect gael ei gymeradwyo ac yn unol â'r rhestr o gyfarfodydd cynnydd a restrir uchod.

Bydd yr holl daliadau'n cael eu gwneud ar ôl i anfoneb wedi'i heitmeiddio ddod i law, ynghyd ag adroddiad byr yn amlinellu'r cynnydd a wnaed a'r diwrnodau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith cyflawni.

Sut i wneud cais

Anfonwch yr wybodaeth ganlynol i commissions@addocreative.com erbyn y **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 5pm ar 24 Mai 2024**:

- Hyd at 10 delwedd ddigidol mewn dogfen PDF neu gyflwyniad PowerPoint, neu rîl ffilm 10 munud (ar y mwyaf). Dylai'r holl waith fod wedi'i rifo a chynnwys teitl, dyddiad, dimensiwn a chyfrwng;
- CV cyfredol;
- Datganiad (naill ai'n ysgrifenedig, ar ffurf sain neu fideo) gyda gwybodaeth am brosiectau a phrofiad blaenorol sy'n amlinellu'n fras pam fod gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer;
- Dau lythyr o gefnogaeth.

Sylwch nad oes angen cynnig prosiect arnom ar y cam hwn gan ein bod yn rhagweld y bydd manylion y gweithgareddau sydd i'w gwneud fel rhan o'r preswiliad yn cael eu datblygu yn dilyn cyfnod o ryngweithio â'r ardal, y gymuned a rhanddeiliaid allweddol.

Gofynnir i'r artistiaid ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad gyflwyno ffurflen 'Gwahoddiad i Roi Dyfynbris' fer a ddarperir gan CNC, sy'n cynnwys telerau ac amodau.

Caiff yr artistiaid ar y rhestr fer sydd wedi cwblhau'r ffurflen 'Gwahoddiad i Roi Dyfynbris' eu cyfweld yn ystod yr wythnos yn dechrau 17 Mehefin 2024. Bydd y detholiad terfynol yn cael ei wneud gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Addo, CNC, Cyngor Celfyddydau Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r swyddogion datblygu prosiect sy'n gweithio ar y safle.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach am y cyfle hwn, cysylltwch â: Sarah Pace o Addo yn sarah@addocreative.com

Ynglŷn â'r partneriaid

Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://cyfoethnaturiol.cymru>

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru (mae'n cyflogi 1,900 o staff ar gyllideb o £180 miliwn), ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod amgylchedd a chyfoeth naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Cafodd ei sefydlu ym mis Ebrill 2013, gan ymgymryd â swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn bennaf, yn ogystal â nifer o swyddogaethau penodol Llywodraeth Cymru. Mae rolau a chyfrifoldebau CNC ar hyn o bryd yn cynnwys ansawdd aer, manau gwyrdd, newid yn yr hinsawdd, ynni, dŵr, coedwigaeth, gwastraff, iechyd a llesiant, ac amaethyddiaeth.

Plantlife: <https://www.plantlife.org.uk>

Nod Plantlife yw gwneud newid cadarnhaol parhaol er lles blodau gwyllt, planhigion a ffyngau. Ein nod yw helpu i liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd wrth ailadeiladu bioamrywiaeth o fewn ein hecosystemau. Fel gyda'r prosiect hwn, rydym yn ymuno'n rheolaidd ag eraill i warchod y cynefinoedd hanfodol y mae cymaint o rywogaethau'n eu galw'n gartref. Rydym yn helpu rhywogaethau prin a rhywogaethau sydd o dan fygythiad drwy weithio i warchod ac adfer fforestydd glaw tymherus, dolydd ac amgylcheddau eraill. Mae hyn wedi cael effaith fawr dros y blynyddoedd, ac mae niferoedd llawer o blanhigion yn cynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'n gwaith.

Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://icc.gig.cymru>

Sefydliad iechyd y cyhoedd i Gymru, sy'n anelu at ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Mae ganddo rôl bwysig o ran darparu arweinyddiaeth system, yn y system iechyd a gofal, a hefyd yn ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan ddefnyddio'i safle fel sefydliad iechyd cyhoeddus Cymru i gael effaith gadarnhaol ar yr holl benderfyniadau iechyd a llesiant.

Addo: <http://www.addocreative.com>

Mae Addo yn gweithio gydag artistiaid, cymunedau a phartneriaid yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i guradu, rheoli a chynhyrchu prosiectau celf sydd wedi'u lleoli mewn mannau pwysig sy'n gwella ecoleg ddiwylliannol ehangach lleoedd, cymunedau a safleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys: gweithiau parhaol / dros dro, preswyladau artistiaid, strategaethau, adroddiadau, codi arian, gwerthuso, ymchwil, digwyddiadau ac arddangosfeydd.

Ystyr 'Addo' yn Lladin yw 'rhoi, cyfrannu, gosod, ysbrydoli, achosi, ychwanegu, uno' yn Lladin ac 'addo' yn y Gymraeg, wrth gwrs, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i greu cyfleoedd i eraill gynhyrchu a phrofi celf gyfoes mewn gofodau sy'n ymwneud â'r celfyddydau neu beidio, gan gydweithio i ddatblygu syniadau, rhannu ein harbenigedd a hyrwyddo arferion gorau. Mae ein rôl yn addasu mewn ymateb i gyd-destun penodol, o guradur i fentor, codwr arian i negodwr, cynhyrchydd i weinyddwr, rheolwr prosiect i ymchwilydd, gwerthuswr i actifydd.